**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**Agenda**

**Dyddiad:** Dydd Iau 10 Mawrth 2005
**Amser:** 9:15 am
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a sylwadau agoriadol y Cadeirydd – 5 munud**

**Papur:** Cofnodion - STD(2) 02-05(01)

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod, yn amlinellu'i bwrpas yn fras ac yn galw am unrhyw ymddiheuriadau. Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i gymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar ddydd Iau 24 Mehefin 2004.

**Eitem 2: Cyflwyno'r Newyddion Diweddaraf am y Camau a Gymerwyd yn sgil STD(2) 04-04 ac Adolygu'r Gwaith- 5 munud**

**Papur:** Papur gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD(2) 02-05(02)

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cynnydd a'r gwaith sydd ar y gweill.

Bydd y Clerc hefyd yn hysbysu'r Aelodau am hynt y gwaith o recriwtio'r Comisiynydd Safonau.

**Eitem 3: Adolygiad Woodhouse – Adroddiad Cynnydd - 10 munud**

**Papur:** Papurau gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD(2) 02-05(03)&(03a)

Gwahoddir yr Aelodau i nodi'r cynnydd a wnaed wrth weithredu argymhellion Adolygiad Woodhouse.

**Eitem 4: Adolygiad Woodhouse – Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch - 20 munud**

**Papur:** Papur gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD(2) 02-05(04)

Gwahoddir yr Aelodau i drafod papur yr Ysgrifenyddiaeth, sydd yn gosod allan cynigion ar gyfer gweithredu argymhelliad Adolygiad Woodhouse ynghylch Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch.

**Eitem 5: Adolygiad Woodhouse – Cofrestru Cyfranddaliadau - 20 munud**

**Papur:** Papur gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD(2) 02-05(05)

Gwahoddir yr Aelodau i drafod papur yr Ysgrifenyddiaeth, sydd yn gosod allan cynigion ar gyfer gweithredu argymhelliad Adolygiad Woodhouse ynghylch cofrestru Cyfranddaliadau.

**Eitem 6: Adolygiad Woodhouse – Terminoleg - 20 munud**

**Papur:** Papur gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD(2) 02-05(06)

Gwahoddir yr Aelodau i drafod papur yr Ysgrifenyddiaeth, sydd yn gosod allan cynigion ar gyfer gweithredu argymhellion Adolygiad Woodhouse ynghylch y derminoleg a arferir i ddisgrifio gofynion ambell Reol Sefydlog a'r gyfraith.

## Eitem 7: Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf – 5 munud

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi y bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf sydd ar yr amserlen ar ddydd Iau 28 Ebrill.

**Ysgrifenyddiaeth** **Mawrth 2005**
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**